# Drafft Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

## *1. Amcanion polisi*

- ***Effaith pa benderfyniad yr ydych yn ei hasesu?***

Mae’r asesiad effaith hwn yn ystyried y canllawiau statudol newydd ar gyfer arweinwyr ysgolion, awdurdodau addysg ac awdurdodau lleol i weithredu polisi i gyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol gan ddysgwyr yn ystod y diwrnod ysgol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad i gyflwyno canllawiau cenedlaethol sy’n cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion ar 16 Mehefin 2026, mewn cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog Cabinet dros Addysg a’r Gymraeg, Anna Brychan. ‘Cyhoeddi’r bwriad i ddarparu canllawiau i gyfyngu ar ffonau symudol mewn ysgolion wrth amlinellu blaenoriaethau addysg | LLYW.CYMRU’

Pwrpas y canllawiau statudol yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau lleol sy’n glir, yn gyson ac yn briodol i’w cyd-destunau unigol.

Nod y canllawiau yw cefnogi ysgolion i greu amgylcheddau sy’n hyrwyddo dysgu, llesiant, perthnasoedd cadarnhaol a diogelwch trwy leihau’r tarfu a achosir gan y defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol. Mae’r canllawiau hefyd yn cydnabod y bydd angen i ysgolion ystyried amgylchiadau unigol a gwneud trefniadau priodol pan fydd angen mynediad at ddyfais symudol oherwydd anghenion iechyd, llesiant, hygyrchedd neu gymorth ychwanegol.

Yn unol â hawliau plant, bydd y canllawiau yn annog ysgolion i geisio ac ystyried barn plant a phobl ifanc wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisi ffonau symudol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y polisi yn adlewyrchu profiadau dysgwyr, yn cefnogi eu dealltwriaeth o’r rhesymeg dros y cyfyngiadau, ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon yn y broses o wneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, yn unol ag Erthygl 12 o CCUHP.

Felly mae’r asesiad effaith hwn yn ystyried effeithiau posibl y canllawiau statudol, ac effaith eu gweithredu mewn ysgolion, ar blant a phobl ifanc.

## *2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc*

- ***Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o’r broses asesu effaith, gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.***

DRAFT

Mae'r canllawiau statudol drafft wedi'u llywio gan ystod o dystiolaeth sy'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc, a'u llesiant, ymddygiad, gallu i ganolbwyntio a'u diogelwch ar-lein, yn ogystal ag effaith technoleg ddigidol mewn ysgolion.

Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn cynnwys:

- Mae tystiolaeth ryngwladol, gan gynnwys y 'Global Education Monitoring Report' gan UNESCO, yn tynnu sylw at yr effeithiau niweidiol y gall defnydd gormodol o ffonau clyfar eu cael ar ddysgu, llesiant a gallu dysgwyr i ganolbwyntio, ac yn argymell mai dim ond pan fo technoleg yn cefnogi canlyniadau dysgu y dylid ei defnyddio.
- Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd ac Uwchgynhadledd Ymddygiad 2025, sefydlwyd Fforwm Cenedlaethol ar y Defnydd o Ffonau Symudol mewn Ysgolion, sy'n cynnwys ymarferwyr, penaethiaid, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, awdurdodau lleol, y senedd ieuenctid ac ymchwilwyr i sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau yn llywio datblygiadau yn y dyfodol.
- Canfu arolwg Llywodraeth Cymru o'r gweithlu addysg ar ffonau symudol ym mis Mawrth 2026 fod gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisi ffonau symudol eisoes, ond bod amrywiaeth sylweddol o ran ymarfer. Roedd 82% o ymatebwyr yn cefnogi mwy o gyfarwyddiadau statudol ar y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion.
- Ystod o dystiolaeth gan arweinwyr ysgolion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r fforwm ffonau symudol, bord gron penaethiaid, a grŵp cynghori gweinidogol o benaethiaid sydd eisoes wedi cyflwyno cyfyngiadau, lle nodwyd gwelliannau mewn ymgysylltiad dysgwyr, ymddygiad, gallu i ganolbwyntio a rhyngweithio cymdeithasol.

Mae'r canllawiau hefyd wedi'u datblygu mewn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch seiberfwlio, mynediad at gynnwys amhriodol, niwed ar y cyfryngau cymdeithasol, risgiau diogelu ar-lein, ac effaith bod wedi'u cysylltu'n barhaus ar lesiant dysgwyr.

- ***Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut rydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.***

Bwriedir i'r canllawiau fod o fudd i bob dysgwr trwy gefnogi amgylchedd dysgu tawel, diogel a chyda ffocws. Fodd bynnag, efallai y bydd yr effeithiau yn wahanol mewn grwpiau dysgwyr gwahanol.

**Plant oedran cynradd**

- Effaith gadarnhaol trwy leihau'r cysylltiad â deunyddiau niweidiol ar-lein a llai o dynnu sylw yn ystod y diwrnod ysgol.
- Effeithiau cadarnhaol trwy wella gallu i ganolbwyntio, diddordeb mewn dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a llesiant.

DRAFT

- Dim ond effaith negyddol gyfyngedig a ddisgwylir, gan fod llai o blant iau yn berchen ar ffonau symudol yn gyffredinol.

**Plant a phobl ifanc oedran uwchradd**

- Effaith gadarnhaol trwy leihau'r cysylltiad â deunyddiau niweidiol ar-lein a llai o dynnu sylw yn ystod y diwrnod ysgol.
- Effeithiau cadarnhaol trwy wella gallu i ganolbwyntio, diddordeb mewn dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a llesiant.
- Ar y dechrau, efallai y bydd rhai dysgwyr yn gweld y cyfyngiadau fel cyfyngiad ar ymreolaeth neu ar eu gallu i gyfathrebu â chyfoedion yn ystod y diwrnod ysgol.

Efallai y bydd rhai dysgwyr angen mynediad at ffôn symudol i gael mynediad at wasanaethau hanfodol, gan gynnwys cardiau teithio digidol a systemau talu drwy ap. Felly dylai unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o ffonau symudol ystyried gallu dysgwyr i gael mynediad i'r gwasanaethau hyn pan fo angen.

**Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a phlant anabl**

- Effeithiau cadarnhaol lle mae llai o dynnu sylw yn cefnogi ymgysylltu a chyfranogiad.
- Efallai y bydd rhai dysgwyr angen mynediad at ddyfais symudol fel addasiad rhesymol neu at ddibenion meddygol, cyfathrebu neu dechnoleg gynorthwyol.
- Mae'r canllawiau yn cydnabod yr angen am eithriadau priodol a hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol.

**Plant ag anghenion meddygol**

- Mae rhai plant yn dibynnu ar ddyfeisiau symudol i fonitro cyflyrau iechyd neu gyfathrebu ynghylch gofynion meddygol.
- Bydd disgwyl i ysgolion wneud trefniadau ac eithriadau priodol pan fo angen.

**Plant sy'n byw mewn tlodi**

- Effeithiau cadarnhaol trwy greu mwy o gysondeb a lleihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth dyfeisiau cost uchel.
- Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

**Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phlant mudol**

- Effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i amgylchedd ysgol mwy diogel a mwy cynhwysol.

Dylai ysgolion ystyried anghenion pob plentyn, gan gynnwys plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phlant mudol a allai ddibynnu ar

gyfathrebu symudol i gadw mewn cysylltiad â gofalwyr, aelodau o’r teulu neu wasanaethau cymorth.

**Plant sy’n siarad Cymraeg**

- Dim effaith wahaniaethol wedi’i nodi.

**Plant a phobl ifanc LHDTC+**

- Effeithiau cadarnhaol trwy leihau cyfleoedd ar gyfer seiberfwlio a rhyngweithiadau ar-lein niweidiol yn ystod y diwrnod ysgol.
- Efallai y bydd rhai dysgwyr yn dibynnu ar rwydweithiau cymheiriaid ar-lein am gymorth a chysylltiad. Gallai cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol leihau mynediad uniongyrchol i’r rhwydweithiau hyn, ond ni fyddai unrhyw effaith ar fynediad y tu allan i oriau ysgol.

**Gofalwyr ifanc**

- Gallai cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol effeithio ar ofalwyr ifanc sy’n dibynnu ar eu ffonau i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o’r teulu maen nhw’n helpu i ofalu amdanynt, neu i dderbyn diweddariadau amdanynt.
- Mae’r canllawiau yn lliniaru’r risg hon trwy gydnabod bod angen i ysgolion ystyried amgylchiadau unigol a darparu trefniadau priodol pan fo angen.

Ar y cyfan, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi’i nodi sy’n awgrymu y byddai unrhyw grŵp gwarchodedig yn profi effeithiau andwyol anghymesur, cyhyd â bod ysgolion yn gweithredu’r canllawiau mewn modd hyblyg a phriodol.

- ***Pa waith cyfranogi ydych chi wedi’i wneud gyda phlant a phobl ifanc i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.***

Mae’r gwaith o ddatblygu’r canllawiau wedi cael ei lywio gan weithgarwch ymgysylltu Llywodraeth Cymru ar y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion, gan gynnwys trafod â phlant a phobl ifanc fel rhan o’r rhaglen ehangach o drafodaethau â rhanddeiliaid ar ymddygiad mewn ysgolion.

Mae’r gwaith ymgysylltu penodol ar y defnydd o ffonau symudol wedi cynnwys y Grŵp Ieuenctid Cadw’n Ddiogel Ar-lein a thrafodaethau ehangach â Senedd Ieuenctid Cymru ar ymddygiad, diogelwch a llesiant. Rhannodd dysgwyr eu barn ar ddiogelwch ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol a’r defnydd o ffonau clyfar, gan nodi manteision a heriau cyfyngu ar ffonau yn ystod y diwrnod ysgol. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn ffafrio disgwyliadau clir a chyson, ochr yn ochr â mwy o addysg ar ddefnydd diogel a chyfrifol o ffonau clyfar.

Bydd cyhoeddi fersiwn hawdd ei ddeall o'r ymgynghoriad ar y canllawiau newydd yn cefnogi plant a phobl ifanc ymhellach i gymryd rhan. Bydd darparu gwybodaeth mewn fformat mwy hygyrch yn helpu i sicrhau bod ystod ehangach o ddysgwyr yn gallu deall y cynigion, ystyried eu heffaith bosibl a rhannu eu barn, a thrwy hynny gefnogi ymgysylltu ystyrlon yn y broses ymgynghori.

Er bod y penderfyniad Gweinidogol i gyflwyno canllawiau statudol eisoes wedi'i wneud, mae'r ymgynghoriad byw ar y canllawiau drafft yn rhoi cyfle i blant, pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill helpu i lunio'r canllawiau terfynol. Bydd Senedd Ieuenctid Cymru yn cael ei chynnwys yn y broses ymgynghori i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle ystyrlon i gyfrannu eu barn a llywio'r canllawiau terfynol. Bydd cyfleoedd pellach i gymryd rhan yn codi wrth i'r canllawiau gael eu gweithredu.

Bydd ysgolion yn cael eu hannog i gynnwys dysgwyr yn uniongyrchol wrth ddatblygu, cyfathrebu ac ymgorffori polisïau ffonau symudol lleol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn deall y rhesymeg dros y cyfyngiadau ac yn gallu cyfrannu'n adeiladol at drefniadau yn eu hysgol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi Erthygl 12 o CCUHP trwy ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ar sut mae polisïau lefel ysgol yn cael eu gweithredu.

### *3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith*

- ***Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?***

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y canllawiau yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae'r buddion disgwyliedig yn cynnwys:

- Gwella gallu dysgwyr i ganolbwyntio a'u diddordeb mewn dysgu.
- Llai o darfu yn yr ystafell ddosbarth.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol wyneb yn wyneb.
- Llai o gyfleoedd ar gyfer seiberfwlio a mathau eraill o niwed ar-lein yn ystod y diwrnod ysgol.
- Gwella llesiant a hinsawdd yr ysgol.
- Mwy o gysondeb yn y disgwyliadau ledled Cymru.

Mae effeithiau negyddol posibl yn cynnwys:

- Efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc yn teimlo bod ganddynt lai o ymreolaeth neu annibyniaeth.
- Gall cyfyngiadau greu anawsterau i ddysgwyr sydd angen mynediad i ddyfais am resymau meddygol neu hygyrchedd.
- Gall dysgwyr weld y polisi fel rhywbeth negyddol i ddechrau os nad ydynt yn deall y rhesymeg y tu ôl iddo.

DRAFT

DRAFT

**Mesurau lliniaru**

Bydd y canllawiau yn lliniaru'r risgiau hyn trwy:

- Ddarparu ar gyfer eithriadau ac addasiadau rhesymol pan fo angen am resymau yn ymwneud ag iechyd, anabledd, diogelu neu anghenion dysgu ychwanegol.
- Cadw hyblygrwydd mewn trefniadau gweithredu.
- Annog ysgolion i gynnwys dysgwyr yn y broses o ddatblygu ac adolygu polisïau lleol.
- Cyfathrebu'n glir y rhesymau addysgol, diogelu a llesiant dros gyflwyno'r cyfyngiadau.
- Monitro'r gweithrediad a'r effeithiau yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys casglu adborth gan blant a phobl ifanc drwy gysylltiadau sefydledig â Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru.

- ***Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.***

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 – Dim gwahaniaethu | x | | Mae'r canllawiau statudol newydd yn gymwys i bob dysgwr i'r un graddau, gydag addasiadau rhesymol pan fo angen. |
| Erthygl 3 – Budd pennaf y plentyn | x | | Nod y canllawiau statudol newydd yw hyrwyddo llesiant, dysgu a diogelwch plant. |
| Erthygl 12 – Parchu safbwyntiau'r plentyn | x | | Bydd ysgolion yn cael eu hannog i gynnwys dysgwyr wrth weithredu ac adolygu polisi ffonau symudol. |
| Erthygl 13 – Rhyddid mynegiant | | x | Gall cyfyngiadau ar y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion gyfyngu ar rai mathau o gyfathrebu yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn yn gymesur, wedi'i gyfyngu i gyfnod penodol ac wedi'i gyfiawnhau gan |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ystyriaethau addysgol a diogelu, ac mae'n cael ei wrthbwyso gan fwy o ryngweithio cymdeithasol â chyfoedion. |
| Erthygl 16 – Hawl i breifatrwydd | x | | Bydd llai o ddefnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol yn lleihau rhannu delweddau amhriodol a risgiau preifatrwydd. |
| Erthygl 17 – Mynediad at wybodaeth | | x | Bydd rhywfaint o gyfyngu ar fynediad at wybodaeth trwy ffonau symudol yn ystod oriau ysgol. Mae adnoddau addysgol amgen yn parhau i fod ar gael mewn ysgolion. |
| Erthygl 19 – Amddiffyn rhag niwed | x | | Bydd y canllawiau statudol newydd yn helpu i amddiffyn dysgwyr rhag seiberfwlio, cam-drin ar-lein a dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol. |
| Erthygl 23 – Hawliau plant anabl | x | | Mae'r canllawiau statudol newydd yn cydnabod y gallai fod angen mynediad at ddyfeisiau symudol ar rai dysgwyr anabl a rhai dysgwyr sydd ag ADY ar gyfer cyfathrebu, technoleg gynorthwyol, monitro meddygol neu anghenion cymorth eraill. Bydd disgwyl i ysgolion wneud addasiadau rhesymol a darparu eithriadau pan fo hynny'n briodol. Mae'r dull hyblyg hwn yn helpu i sicrhau nad yw cyfyngiadau ar ffonau symudol yn rhoi dysgwyr anabl dan anfantais, ac mae'n eu cefnogi i gymryd rhan yn llawn mewn addysg ochr yn ochr â'u cyfoedion. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 29 – Nodau addysg | x | | Mae'r canllawiau statudol newydd yn cefnogi amgylchedd cadarnhaol a mwy diogel ar gyfer dysgu, datblygu a rhyngweithio cymdeithasol. |
| Erthygl 31 – Hamdden, chwarae a bywyd diwylliannol | x | | Bydd y canllawiau newydd yn hyrwyddo mwy o ryngweithio cymdeithasol wyneb yn wyneb a chyfranogiad yn ystod amseroedd egwyl. |

- ***Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.***

Fel y nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid oes unrhyw effeithiau penodol ar blant a phobl ifanc sy'n ddinasyddion yr UE wedi'u nodi.

Mae'r canllawiau yn gymwys i'r un graddau i bob dysgwr ni waeth beth fo'u cenedligrwydd, statws mewnfudo neu statws preswylydd sefydlog. Ni ragwelir unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar hawliau dinasyddion yr UE.

***4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc***

- ***Os ydych chi wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut byddwch chi'n rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?***

Mae'r ymgynghoriad byw ar y canllawiau statudol drafft yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc, ysgolion, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill helpu i lunio'r canllawiau terfynol. Bydd gwybodaeth am y canllawiau, y gwaith o'u gweithredu a'r canlyniadau arfaethedig yn cael ei rhannu trwy ysgolion, rhwydweithiau cyfranogiad dysgwyr a sianeli rhanddeiliaid perthnasol eraill. Bydd ysgolion yn cael eu hannog i ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr, gan gynnwys drwy gynghorau ysgol a mecanweithiau cyfranogi sefydledig eraill, i esbonio'r canllawiau terfynol a sut y maent wedi cael eu llywio gan ymatebion i'r ymgynghoriad a gweithgareddau ymgysylltu ehangach.

Dylai adborth i ddysgwyr nodi:

DRAFT

- Pam mae cyfyngiadau ar y defnydd o ffonau symudol yn cael eu cyflwyno.
- Sut mae barn plant a phobl ifanc wedi llywio datblygiad y canllawiau a'r trefniadau lleol.
- Sut y disgwylir i'r canllawiau gefnogi dysgu, llesiant, perthnasoedd cadarnhaol a diogelwch.
- Pa hyblygrwydd sy'n bodoli i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau unigol.

Lle bo'n bosibl, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn fformatau hygyrch a fformatau sy'n addas i'r oedran i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn deall y rhesymeg dros y canllawiau a'r rôl y mae eu cyfraniadau wedi'i chwarae wrth lywio penderfyniadau polisi.

***5. Monitro ac Adolygu***

- ***Amlinellwch pa drefniadau monitro ac adolygu y byddwch yn eu rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.***

Byddwn yn gwerthuso'r effaith yn ystod y flwyddyn ysgol ar ôl gweithredu'r canllawiau, yn unol â'r ymrwymiad Gweinidogol sy'n cyd-fynd â chyhoeddi'r canllawiau.

Bydd y gwaith monitro yn defnyddio:

- Adborth gan ysgolion a chyrff llywodraethu.
- Adborth gan blant a phobl ifanc.
- Adborth gan rieni a gofalwyr.
- Gwaith ymgysylltu ag awdurdodau lleol.
- Tystiolaeth ar ymddygiad, presenoldeb a llesiant pan fo hynny ar gael.
- Ystyriaeth o unrhyw faterion diogelu, cynhwysiant neu gydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg.

Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i brofiadau plant sydd angen eithriadau neu addasiadau rhesymol, gan gynnwys dysgwyr anabl a'r rhai ag anghenion meddygol.

- ***Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r dull o'i roi ar waith?***

  Byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r canllawiau trwy adborth gan randdeiliaid. Os bydd tystiolaeth yn dangos effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc neu ar grwpiau penodol o ddysgwyr, bydd diwygiadau i'r canllawiau a/neu drefniadau gweithredu yn cael eu hystyried a'u cyflwyno i Weinidogion fel y bo'n briodol.